# Llywodraeth Cymru

# CANLLAWIAU AR DDEFNYDDIO DERBYNIADAU CYFALAF MEWN MODD HYBLYG

## Ebrill 2023

***Mae RHAN 1 o'r ddogfen hon yn rhoi sylwebaeth anffurfiol ar Ran 2.***

***Mae RHAN 2 yn cynnwys y canllawiau statudol y mae'n rhaid i awdurdodau lleol eu hystyried.***

# [RHAN 1]

## SYLWEBAETH ANFFURFIOL AR Y CANLLAWIAU AR DDEFNYDDIO DERBYNIADAU CYFALAF MEWN MODD HYBLYG

***[Mae cyfeiriadau at y paragraffau yn y canllawiau ffurfiol mewn cromfachau sgwâr]***

### Y PŴER Y RHODDIR Y CANLLAWIAU ODDI TANO [1.1]

1. Mae'n ofynnol o dan adran 15 (1) o **Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 ("y Ddeddf")** i awdurdod lleol "…to have regard (a) to such guidance as the Secretary of State may issue, and (b) to such other guidance as the Secretary of State may by regulations specify…" ac mae adran 24 yn datgan, "In its application to Wales,... for any reference to the Secretary of State there were substituted a reference to the National Assembly for Wales."

2. Mae'r canllawiau ar ddefnyddio derbyniadau cyfalaf mewn modd hyblyg yn Rhan 2 o'r ddogfen hon yn cael eu rhoi o dan adran 15(1) o'r Ddeddf ac mae'n ofynnol felly i awdurdodau ei hystyried.

3. Mae dau god ymarfer wedi'u cyhoeddi gan y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth sy'n cynnwys canllawiau ar dderbyniadau cyfalaf a chyfrifyddu awdurdodau lleol sy'n cyd-fynd â chanllawiau Llywodraeth Cymru. Mae'r cyhoeddiadau hynny fel a ganlyn:

- *The Prudential Code for Capital Finance in Local Authorities*
- *The Code of Practice on Local Authority Accounting.*

4. Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol ystyried yr argraffiad cyfredol o *Treasury Management in Public Services: Code of Practice and Sectoral Guidance Notes* drwy Reoliad 19 o *Reoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf a Chyfrifyddu) (Cymru) 2003 (OS 2003/3239 (Cy319))* a'r *Cod Ymarfer Cyfrifyddu Awdurdodau Lleol* fel arferion priodol ar gyfer paratoi cyfrifon o dan adran 21(2) o'r Ddeddf.

**CYMHWYSO [3.1- 3.2]**

5. Dylid darllen y canllawiau hyn ar y cyd â'r cyfarwyddyd perthnasol a roddir gan Weinidogion Cymru.

6. Mae'r canllawiau hyn yn gymwys gydag effaith o 1 Ebrill 2023 i 31 Mawrth 2025 – hy ar gyfer blwyddyn ariannol 2023-24 – ac ar gyfer pob blwyddyn ariannol ddilynol y mae'r cyfarwyddyd ar ddefnyddio derbyniadau cyfalaf mewn modd hyblyg yn gymwys iddi.

7. Mae'r cyfarwyddyd yn ei gwneud hi'n glir na all awdurdodau lleol fenthyca er mwyn ariannu costau refeniw diwygio gwasanaethau. Derbyniadau cyfalaf o waredu asedau eiddo, offer a chyfarpar a dderbyniwyd yn y blynyddoedd hynny y cynigir yr hyblygrwydd hwn ynddynt yn unig y gall awdurdodau lleol eu defnyddio. Ni all awdurdodau lleol ddefnyddio eu stoc bresennol o dderbyniadau cyfalaf i ariannu costau refeniw prosiectau cymwys.

**GWARIANT CYMWYS [4.1/4.3]**

8. Mae Gweinidogion Cymru o'r farn mai awdurdodau unigol a grwpiau o awdurdodau sydd yn y sefyllfa orau i benderfynu pa brosiectau a fydd fwyaf effeithiol ar gyfer eu hardaloedd. Y maen prawf hanfodol wrth benderfynu a ellir ariannu gwariant drwy'r hyblygrwydd derbyniadau cyfalaf yw y rhagwelir y byddai gwneud hynny yn cynhyrchu arbedion parhaus neu'n lleihau costau refeniw neu bwysau dros y tymor hwy i awdurdod, neu nifer o awdurdodau, a/neu i gorff cyhoeddus arall.

9. Mae rhestr o'r math o brosiect a fyddai'n gymwys i gael defnyddio derbyniadau cyfalaf mewn modd hyblyg yn gynwysedig yn y canllawiau. Nid yw'n fwriad i'r rhestr hon fod yn un rhagnodol na hollgynhwysfawr a gall awdurdod unigol sydd â phrosiectau a fydd yn cynhyrchu arbedion parhaus neu'n lleihau costau refeniw neu bwysau dros y tymor hwy nad ydynt yn gynwysedig yn y rhestr gymhwyso'r hyblygrwydd i ariannu'r prosiectau hynny.

**ATEBOLRWYDD A THRYLOYWDER [5.1 - 5.6]**

10. Mae Gweinidogion Cymru o'r farn ei bod yn bwysig i awdurdodau unigol ddangos y safonau uchaf posibl o ran atebolrwydd a thryloywder. Mae'r canllawiau yn argymell y dylai pob awdurdod baratoi nodyn datgelu unigol ar gyfer pob prosiect sydd wedi cael ei ariannu neu ei ariannu'n rhannol drwy hyblygrwydd derbyniadau cyfalaf. Dylai'r nodyn datgelu gael ei gymeradwyo gan y Swyddog Cyllid Cyfrifol ar yr un pryd ag y bydd y cyfrifon statudol yn cael eu hardystio a gellir ei gynnwys fel rhan o ddogfennaeth y cyfrifon diwedd blwyddyn. Dylai'r nodyn datgelu gael ei ystyried a'i gymeradwyo gan y person a oedd yn llywyddu yn y pwyllgor neu'r cyfarfod lle y cafodd y datganiad o gyfrifon ei gymeradwyo.

# [RHAN 2]

# Llywodraeth Cymru
# CANLLAWIAU AR DDEFNYDDIO DERBYNIADAU CYFALAF MEWN MODD HYBLYG

**Cyhoeddwyd o dan adran 15(1)(a) o *Ddeddf Llywodraeth Leol 2003***
**ac yn effeithiol o 1 Ebrill 2023**

## (1) Y PŴER Y RHODDIR Y CANLLAWIAU ODDI TANO

1.1 Rhoddir y canllawiau a ganlyn gan Weinidogion Cymru o dan adran 15(1)(a) o *Ddeddf Llywodraeth Leol 2003.*

## (2) DIFFINIO TERMAU

2.1 Yn y canllawiau hyn, ystyr **y Ddeddf** yw *Deddf Llywodraeth Leol 2003.*

2.2 Mae gan **awdurdod lleol** yr ystyr a roddir yn adran 23 o'r Ddeddf (ac mewn rheoliadau a wneir o dan yr adran honno).

2.3 Mae gan **dderbyniad cyfalaf** yr ystyr a roddir yn adran 9 o'r Ddeddf (ac mewn rheoliadau a wneir o dan yr adran honno).

2.4 Mae **gwariant cymwys** yn golygu gwariant ar brosiect lle y bydd costau ymlaen llaw a ysgwyddir yn cynhyrchu arbedion parhaus; lleihau costau refeniw neu bwysau dros y tymor hwy. Mae prif ran y canllawiau hyn yn cynnwys manylion y mathau o brosiect a fydd yn cynhyrchu gwariant cymwys.

2.5 Mae'r **cyfarwyddyd** yn golygu cyfarwyddyd a wneir o dan adran 16(2)(b) o'r Ddeddf, er mwyn caniatáu i awdurdodau lleol drin gwariant cyfalaf fel pe bai'n wariant cyfalaf.

2.6 Mae gan **ddangosyddion darbodus** yr ystyr a roddir yng nghod ymarfer y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddu, *The Prudential Code for Capital Finance in Local Authorities*.

## (3) CYMHWYSO

### Dyddiad dod i effaith

3.1 Mae'r canllawiau hyn yn gymwys gydag effaith o 1 Ebrill 2023, ar gyfer y cyfnod y bydd defnyddio derbyniadau cyfalaf mewn modd hyblyg yn gymwys iddo. Bydd hyn wedi ei nodi yn y cyfarwyddyd.

### Awdurdodau lleol

3.2 Mae'r canllawiau hyn yn gymwys i bob awdurdod lleol yng Nghymru a enwir yn y cyfarwyddyd a roddir gan Weinidogion Cymru.

## (4) GWARIANT CYMWYS

### Mathau o wariant cymwys

4.1 Gwariant ar unrhyw brosiect a gynlluniwyd i gynhyrchu arbedion refeniw parhaus wrth gyflenwi gwasanaethau cyhoeddus a/neu drawsnewid y ffordd o gyflenwi gwasanaethau mewn modd sy'n lleihau costau neu'r galw am wasanaethau yn y blynyddoedd i ddod i'r Awdurdod neu unrhyw un o'r partneriaid cyflenwi yw gwariant cymwys. Mae hyn yn cynnwys buddsoddiad sy'n cefnogi prosiectau twf economaidd sydd hefyd wedi eu cynllunio i leihau costau refeniw neu bwysau dros y tymor hwy. Yn unol â’r diffiniad hwn, mater i awdurdodau lleol unigol yw penderfynu a ydy prosiect yn gymwys ar gyfer yr hyblygrwydd ai peidio.

4.2 Gall costau sefydlu a gweithredu unrhyw brosesau neu drefniadau newydd gael eu dosbarthu fel gwariant cymwys. Ni ellir dosbarthu costau refeniw parhaus y prosesau neu drefniadau newydd fel gwariant cymwys.

### Enghreifftiau o wariant cymwys

4.3 Mae ystod eang o brosiectau a allai gynhyrchu gwariant cymwys ac nid yw'r rhestr isod yn un rhagnodol. Mae enghreifftiau o brosiectau yn cynnwys:

- Gwaith paratoadol sy'n angenrheidiol i gefnogi awdurdodau lleol i uno fel rhan o’r rhaglen ar gyfer diwygio llywodraeth leol yng Nghymru;
- Rhannu gwasanaethau swyddfa gefn a gweinyddol gydag un neu ragor o gynghorau neu gyrff sector cyhoeddus eraill;

- Buddsoddi mewn gwaith ar ddichonoldeb diwygio gwasanaethau, ee sefydlu cynlluniau peilot;
- Cydweithio rhwng awdurdodau lleol a'r llywodraeth ganolog i ryddhau tir at ddefnydd economaidd;
- Ariannu cost ad-drefnu, ailstrwythuro neu resymoli gwasanaethau (staff neu nad ydynt yn staff), pan fo hyn yn arwain at arbedion effeithlonrwydd parhaus neu drawsnewid gwasanaethau;
- Rhannu Prif Weithredwyr, timau rheoli neu strwythurau staffio;
- Gyrru agwedd ddigidol at gyflenwi gwasanaethau cyhoeddus mwy effeithlon ac o ran y ffordd y mae'r cyhoedd yn rhyngweithio ag awdurdodau cyfansoddol lle y bo hynny'n bosibl;
- Cyfuno trefniadau caffael mewn perthynas â nwyddau a gwasanaethau cyffredin lle y bo hynny'n bosibl, naill ai fel rhan o drefniadau lleol neu gan ddefnyddio'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol, Gwasanaethau Masnachol y Goron neu gyrff pwrcasu canolog eraill sy'n gweithredu yn unol â Datganiad Polisi Caffael Cymru;
- Gwella systemau a phrosesau i fynd i'r afael â thwyll a llygredd yn unol â Strategaeth Atal Twyll a Llygredd Llywodraeth Leol – gallai hyn gynnwys elfen o hyfforddi staff;
- Sefydlu modelau cyflenwi amgen i ddarparu gwasanaethau yn fwy effeithlon a chreu refeniw (er enghraifft, drwy werthu gwasanaethau i eraill);
- Integreiddio gwasanaethau ar gyfer y cyhoedd ar draws dau gorff sector cyhoeddus neu ragor (er enghraifft gofal cymdeithasol i blant, safonau masnach) i greu arbedion neu i drawsnewid y ffordd o gyflenwi gwasanaethau;
- Buddsoddi i gefnogi prosiectau twf economaidd sydd hefyd wedi'u cynllunio i leihau costau refeniw neu bwysau dros y tymor hwy, ar draws un awdurdod lleol neu ragor a/neu gyrff eraill y sector cyhoeddus.

## (5) ATEBOLRWYDD A THRYLOYWDER

### Paratoi

5.1 Yn dilyn diwedd y flwyddyn ariannol, fel rhan o baratoi ei gyfrifon blynyddol, dylai awdurdod lleol sicrhau ei fod yn paratoi nodyn datgelu yn unol â'r amserlen ym mharagraff 5.5.

### Cynnwys

5.2 Dylai'r nodyn datgelu, o leiaf, restru pob prosiect a ddefnyddiodd yr hyblygrwydd derbyniadau cyfalaf, gan sicrhau ei fod yn rhoi manylion sut y rhannwyd cyllid ymlaen llaw ar gyfer pob prosiect rhwng derbyniadau cyfalaf a ffynonellau eraill, ac ar sail prosiectau unigol, nodi'r arbedion y disgwylir eu gwneud a/neu fanteision buddsoddi.

5.3 Gall y nodyn datgelu hefyd gynnwys unrhyw fater arall yr ystyrir ei fod yn berthnasol.

**Cymeradwyo**

5.4 Dylid ystyried y nodyn datgelu a'i gymeradwyo drwy benderfyniad gan y pwyllgor neu'r aelodau sy'n cyfarfod yn gyfan.

**Amserlen**

5.5 Ar gyfer unrhyw flwyddyn ariannol, dylid paratoi nodyn datgelu a'i gymeradwyo erbyn i'r datganiad o gyfrifon gael ei gymeradwyo fan hwyraf.

**Cyhoeddi**

5.6 Mae Gweinidogion Cymru yn disgwyl i'r nodyn datgelu, wedi iddo gael ei gymeradwyo, fod ar gael i'r cyhoedd yn rhad ac am ddim, mewn print neu ar-lein.